Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad Cyngor Sir y Fflint

Tachwedd 2023

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024 WG49325 ISBN Digidol 978-1-83577-548-6

## Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad gwerthuso perfformiad o wasanaethau plant a gwasanaethau oedolion yng Nghyngor Sir y Fflint (CSFf/yr awdurdod lleol) ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023. Mae hyn yn unol â Fframwaith AGC ar gyfer Gwerthuso Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol a Cafcass Cymru.

Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'r ddeddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru.

Rydym yn ystyried y safonau ansawdd yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a'r llinellau ymholi allweddol. Rydym yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf):

**Pobl – llais a rheolaeth**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?

- A oes arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel, gyda gweithlu cymwys, hynod fedrus yn cael ei gefnogi i weithio tuag at weledigaeth a rennir?

**Atal**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo cydnerthedd o fewn cymunedau ac mae pobl yn cael eu helpu i gyrraedd eu potensial drwy annog a helpu pobl sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas?

**Llesiant**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff pobl eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

- I ba raddau y mae pobl yn cael eu helpu i reoli eu llesiant a gwneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain fel y gallant gyrraedd eu potensial llawn a byw'n annibynnol cyhyd â phosibl?

**Partneriaeth**

- I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, o ansawdd uchel a chwbl integredig i bobl?
- A yw pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal?

## 1. <u>Crynodeb - Gwasanaethau Oedolion a Phlant</u>

1.1. Mae tîm uwch-reolwyr sefydlog a phrofiadol ar waith yn y ddau wasanaeth gan ddarparu parhad mewn arweinyddiaeth.

1.2. Dywedodd asiantaethau partner, darparwyr a rhanddeiliaid wrthym fod yr arweinwyr yn weladwy a bod yna gydberthnasau da ar lefel uwch gyda chyfathrebu agored.

1.3. Nododd ymarferwyr hefyd fod yr arweinwyr yn hygyrch, yn agos atoch ac yn gefnogol ac ar y cyfan, eu bod yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael hyfforddiant priodol a'u bod yn meddu ar y sgiliau cywir. Nododd rhai ymarferwyr (16%) o'r gwasanaethau plant a wnaeth ymateb i'r arolwg staff fod angen i arweinyddiaeth a diwylliant yr awdurdod lleol wella, ond dywedodd (86%) eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr. Yn yr un modd, nododd ymarferwyr (91%) o'r gwasanaethau oedolion a wnaeth ymateb i'r arolwg staff hefyd eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr.

1.4. Mae gweithdrefnau ar waith i sefydlu aelodau newydd o staff, ond byddent yn elwa ar fwy o gymorth bugeiliol ar adegau. Cydnabyddir bod cydweithfa gymdeithasol wyneb yn wyneb newydd wedi'i sefydlu er mwyn cynnig cymorth cymheiriaid i'r holl weithwyr cymdeithasol ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion.

1.5. Mae'n amlwg bod yr ymarferwyr yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda iawn. Mewn ymateb i arolwg gan AGC, dywedodd llawer o bobl eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu gan yr ymarferwyr a'u bod yn gwrando arnynt.

1.6. Mae cyfraddau recriwtio a chadw ymarferwyr gofal cymdeithasol yn her genedlaethol ledled Cymru. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i weithio'n galed ar strategaethau i helpu i barhau i recriwtio a chadw staff. Ymhlith yr

enghreifftiau mae comisiynu asiantaeth gyfathrebu i hyrwyddo cyfleoedd i weithio i'r awdurdod lleol a chynyddu capasiti'r tîm datblygu'r gweithlu.

1.7. Cydnabyddir y gwaith ad-drefnu diweddar yn y ddau wasanaeth a gallai hynny arwain at fwy o wydnwch, cyfleoedd am fwy o gymorth a goruchwyliaeth reoli, yn ogystal â chyfleoedd datblygu gyrfa. Roedd rhai ymarferwyr yn y ddau wasanaeth o'r farn na wnaeth yr ymgynghoriad am newidiadau mewn strwythur ystyried safbwyntiau ymarferwyr yn ddigonol, a'i fod wedi cael effaith ar eu morâl gan nad oedd o fudd i bawb.

1.8. Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o sefydlogrwydd y farchnad yn ei ardal ac anghenion ei boblogaeth. Ceir enghreifftiau o'r awdurdod lleol yn rhoi cynlluniau strategol llwyddiannus ar waith mewn ymateb i angen dynodedig a diffyg gwasanaethau cymorth penodol yn ei ardal. Cyflawnwyd hyn drwy weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a phartneriaid perthnasol eraill i ddatblygu gwasanaethau arloesol gyda buddsoddiad cyfalaf sylweddol. Ymhlith yr enghreifftiau mae Cartref Gofal Marleyfield a Chartref Gofal Plant Tŷ Nyth.

1.9. Mae gan yr awdurdod lleol bolisi goruchwylio cynhwysfawr. Mae ymarferwyr yn elwa ar oruchwyliaeth reolaidd ond mae'r ymarfer a safon cofnodion yn anghyson. Mae'r cofnodion goruchwylio gorau yn canolbwyntio ar ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol. Mewn enghreifftiau eraill, mae angen mwy o fyfyrio ar ymarfer, a mwy o ffocws ar chwilfrydedd proffesiynol, canlyniadau a llesiant staff.

1.10. Mae'r awdurdod lleol yn cael budd o gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol dda. Mae ffocws ar sicrhau y caiff dyletswyddau statudol eu cyflawni. Mae uwch-arweinwyr, rheolwyr a gwleidyddion yn cydnabod y camau gweithredu a'r adnoddau sylweddol sy'n ofynnol i sicrhau gallu'r awdurdod lleol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol o ran diogelu. O ganlyniad, comisiynodd yr awdurdod lleol ddau dîm o asiantaethau gofal a reolir ym maes gwasanaethau plant i ddarparu capasiti ychwanegol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau i blant a theuluoedd.

**<u>Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth</u>**

Rydym yn cyflwyno ein canfyddiadau allweddol a'n tystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014.

## 2. Pobl – Llais a Rheolaeth

### Cryfderau – Gwasanaethau Oedolion

2.1 Ceir enghreifftiau o asesiadau gofal cymdeithasol cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n dangos bod ymarferwyr wedi cymryd amser i ddod i adnabod pobl. Fodd bynnag, mae angen i ymarfer yn y maes hwn fod yn fwy cyson oherwydd roedd enghreifftiau hefyd o asesiadau llai cynhwysfawr nad oeddent yn canolbwyntio cymaint ar yr unigolyn.

2.2 Ceir enghreifftiau da o asesiadau wedi'u hysgrifennu yn y person cyntaf, gan ddangos yn glir beth sydd o bwys i bobl. **Mae hwn yn ymarfer cadarnhaol.**

2.3 Caiff asesiadau gofalwyr di-dâl eu cynnig mewn modd priodol. Dywedodd gofalwyr oedolion wrthym eu bod wedi elwa'n sylweddol ar asesiadau gofalwyr a'r cymorth a roddwyd. Ceir ystod eang o gymorth ymarferol arloesol i hyrwyddo llesiant gofalwyr gan gynnwys cwnsela, grantiau, darparu taliadau uniongyrchol yn y byrdymor a threfniadau egwyl byrdymor.

2.4 Caiff y gwasanaeth taliadau uniongyrchol sefydledig ei werthfawrogi gan bobl a gweithwyr proffesiynol. Caiff ei ddefnyddio mewn ffordd greadigol i gefnogi canlyniadau llesiant pobl. Ceir tîm medrus sy'n helpu pobl i gael mwy o reolaeth dros eu trefniadau gofal a chymorth drwy hyblygrwydd taliad uniongyrchol i gyflawni eu canlyniadau personol a hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae porth taliadau uniongyrchol yr awdurdod lleol yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn darparu adnoddau defnyddiol i bobl. Mae hyn yn cynnwys rhestr o gynorthwywyr personol a manylion perthnasol amdanynt. Mae hyn yn helpu pobl i ddewis pwy maent eisiau i'w cefnogi ac yn hyrwyddo hunanreolaeth ac annibyniaeth ac mae'n adlewyrchu **ymarfer cadarnhaol**. Dywedodd un gofalwr wrthym am yr effaith gadarnhaol sylweddol a gafodd taliadau uniongyrchol ar ei bywyd hi ac ar fywyd ei merch, gan alluogi ei merch i fyw gartref gyda gweithwyr cymorth a gofal y maent yn ymddiried ynddynt.

2.5 Caiff anghenion Cymraeg pobl eu hystyried a'u cofnodi.

2.6 Dywedodd y mwyafrif o'r staff (85%) a wnaeth ymateb i arolwg staff AGC am y gwasanaethau oedolion fod ganddynt lwyth gwaith yr oedd modd ei reoli, a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr (91%). Tynnwyd sylw hefyd at forâl da a chymorth gan gymheiriaid o fewn y timau.

**Meysydd i'w gwella**

2.7 Gallai cynlluniau gofal a chymorth gael eu datblygu ymhellach drwy bennu canlyniadau CAMPUS cliriach a defnyddio dull rhagweithiol yn seiliedig ar gryfderau mewn modd cyson. Yn ogystal, er bod lleisiau'r bobl yn glir mewn rhai asesiadau, dylid datblygu'r dull hwn ymhellach mewn cynlluniau gofal a

chymorth. **Dylid cyfeirio at yr hyn sydd o bwys i'r unigolyn a dylid cofnodi canlyniadau personol yn fwy cyson yn y person cyntaf.**

2.8 Weithiau, caiff pobl eu cefnogi drwy system unigolion ar ddyletswydd tra'u bod ar restr aros i'w dyrannu i weithiwr penodol. Gall hyn fod yn heriol i bobl gan nad oes goruchwyliaeth ddigonol o'u hamgylchiadau, ceir diffyg parhad cymorth ac mae'n rhaid i'r bobl ailadrodd eu stori. **Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion presennol i sicrhau gweithlu digonol, cymwysedig a medrus cyson er mwyn lleihau'r angen i bobl gael eu cefnogi gan ymarferwyr gwahanol nad ydynt yn eu hadnabod.**

2.9 Ceir enghreifftiau o adolygiadau taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, roedd un enghraifft nad oedd wedi cael adolygiad. **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol a sut y cânt eu defnyddio yn unol â Chod Ymarfer 4 (Diwallu Anghenion) er mwyn asesu a yw'r canlyniadau personol yn cael eu cyflawni o hyd.**

2.10 **Pan fydd ymarferwyr yn ceisio cyfathrebu ag unigolion, dylai'r awdurdod lleol sicrhau sail dystiolaeth fwy cyson sy'n adlewyrchu'r dulliau cyfathrebu a ystyriwyd ac y rhoddwyd cynnig arnynt.**

2.11 Nid oes tystiolaeth ddigonol i ddangos y caiff dulliau eirioli eu hystyried a'u cynnig yn gyson pan fyddai hynny wedi bod yn briodol. **Mae hwn yn faes y mae'n rhaid ei gryfhau er mwyn dangos y caiff dulliau eirioli eu hystyried fel mater o drefn, yn enwedig ym maes diogelu oedolion.**

## 3. <u>Pobl – Llais a Rheolaeth</u>

### Cryfderau – Gwasanaethau Plant

3.1 Caiff llais a dewis plant a phobl ifanc eu clywed a'u hadlewyrchu'n dda mewn cofnodion ar y cyfan. Mae cofnodion ymholiadau Adran 47 yn cynnwys dyfyniadau uniongyrchol gan blant, sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt a'u pryderon. Roedd rhai o gofnodion y grŵp craidd yn cynnwys adran llais y plentyn sy'n enghraifft o **ymarfer cadarnhaol** ond byddai o fudd sicrhau bod yr ymarfer hwn yn fwy cyson.

3.2 Mae plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i leisio eu barn. Gwelsom enghreifftiau o **ymarfer cadarnhaol** gyda'r plant yn cael cyfleoedd i rannu eu safbwyntiau a'u barnau gyda chyfaill cynadledda cyn i gynhadledd gael ei chynnal yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

3.3 Caiff plant a phobl ifanc eu cefnogi'n dda gan Gynghorwyr Personol ar y cyfan. Maent yn elwa fwyaf ar gyfathrebu rheolaidd, pan fydd y Cynghorwyr Personol yn gweithredu mewn modd rhagweithiol gan gysylltu â phobl ifanc a cheisio cael atebion i bryderon neu faterion a allai fod gan bobl ifanc. Dywedodd unigolyn sy'n gadael gofal wrthym “Mine [PA] is helpful and would find the answers if she didn’t know. Previously I had a bad experience but now she is the first person I go to if I have a problem.”

3.4 Mae grŵp cymorth cymheiriaid buddiol hefyd ar gael i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle hwn i gymdeithasu ag eraill sydd wedi cael profiadau tebyg. Gwnaethant ddweud y canlynol wrthym; “I like meeting people who have experience of care,” “I’ve been coming to this group for eight years. It gets me out of the house.” Mae'r grŵp hwn wedi galluogi rhai pobl ifanc i eirioli ar ran plant â phrofiad o fod mewn gofal mewn cyfarfodydd ffurfiol â'r awdurdod lleol, gan sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed.

3.5 Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi cyd-gaffael yr ap ‘Mind of My Own’ gydag awdurdod lleol cyfagos. Mae modd lawrlwytho'r ap hwn i ddyfais ddigidol ac mae'n cynnwys lluniau syml a geiriau sy'n addas i blant. Cafodd ei gynllunio er mwyn i blant a phobl ifanc rannu profiadau a safbwyntiau ar bynciau sy'n berthnasol iddynt. Bydd hyn yn gwella'r arlwy digidol i blant a phobl ifanc gyfwyno eu safbwyntiau mewn amser real ymhellach.

3.6 Rhoddir digon o amser a chyfleoedd i blant rannu eu safbwyntiau drwy waith uniongyrchol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn y cofnodion cynllunio llwybr ar gyfer un unigolyn ifanc, roedd y gweithiwr cymdeithasol wedi cael trafodaeth glir ac wedi diwygio'r cynllun ar ôl ymgynghori â'r unigolyn ifanc, gan ddangos bod yr unigolyn ifanc wedi cael ei glywed.

3.7 Ceir enghreifftiau da o ddogfennaeth a oedd yn mynegi llais plentyn yn glir, ac enghreifftiau cadarnhaol o gofnodion a ysgrifennwyd yn uniongyrchol wedi'u hanelu at y plentyn, gan roi eglurder a ffocws o ran pam y cafodd Gweithdrefnau Diogelu Cymru eu rhoi ar waith, sy'n enghraifft o **ymarfer cadarnhaol**. Gallai'r ymarfer hwn fod yn fwy cyson.

3.8 Cafodd cymorth gan reolwyr ei gydnabod yn rheolaidd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw. Mae hyn yn bwysig mewn sgyrsiau am risg a diogelwch plant gan ei fod yn hyrwyddo atebolrwydd sefydliadol ac yn golygu bod ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau.

3.9 Mae'r staff yn croesawu'r cyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael iddynt, gan gynnwys cymorth i fynychu hyfforddiant mewn meysydd penodol ar ôl nodi angen dysgu penodol.

3.10 Mae systemau ar waith i adolygu safon ac ansawdd ymarfer sy'n cynnwys archwiliadau o ffeiliau. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymarferwyr yn ymwybodol o'r systemau hyn. Felly, er bod tystiolaeth o ddysgu ar draws y gweithlu, gellid gwella hyn drwy rannu gwybodaeth berthnasol ar raddfa ehangach.

3.11 Yn gyffredinol, mae mesurau rheoli da ar waith i gefnogi ymarfer rheng flaen. Mae trefniadau goruchwylio, cofnodion goruchwylio'r rheolwyr ac awdurdodiadau yn dangos bod rheolwyr llinell yn goruchwylio'r meysydd ymarfer allweddol. Dywedodd yr ymarferwyr wrthym eu bod yn gwerthfawrogi eu rheolwyr.

3.12 Dywedodd y mwyafrif o'r staff a wnaeth ymateb i arolwg staff AGC o'r gwasanaethau plant fod ganddynt lwyth gwaith yr oedd modd ei reoli (78%) a'u bod hefyd yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr (86%). Clywsom hefyd gan ymarferwyr a oedd wedi datblygu drwy rolau gwahanol yn yr awdurdod lleol a ddywedodd cystal yr oeddent wedi cael eu cefnogi. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr (16%) bryderon am arweinyddiaeth a diwylliant. Roeddent am i'w hadborth a'u pryderon gael eu hystyried yn well, er mwyn iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu fwy, ac roeddent am i'r staff gael eu rheoli a'u cefnogi mewn ffordd fwy cyson. Mae AGC wedi cael ymatebion cyflym gan yr awdurdod lleol o ran sut mae'n ymdrin/yn bwriadu ymdrin â'r materion, sy'n cynnwys comisiynu hyfforddiant arweinyddiaeth, a threfnu sgyrsiau cydweithredol er mwyn hyrwyddo ac ymgorffori diwylliant cadarnhaol ymhellach ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

3.13 Caiff anghenion Cymraeg pobl eu hystyried a'u cofnodi. Gwelsom enghraifft o'r Cynnig Rhagweithiol yn cael ei roi ar waith yn ymarferol ac o riant yn gallu sgwrsio ar lafar yn y Gymraeg yn unol â'i ddymuniadau. **Fodd bynnag, pan gaiff y Gymraeg ei nodi fel dewis iaith, dylid ysgrifennu dogfennaeth yn Gymraeg hefyd.** Oni fydd yr unigolyn yn dymuno cael dogfennaeth yn Saesneg ac y gwnaed cofnod yn nodi hynny.

**Meysydd i'w gwella**

3.14 Mae'n rhaid i blant a phobl ifanc anabl aros am gyfnodau hir o amser i gael egwyl fer dros nos mewn darpariaeth breswyl. Nod yr awdurdod lleol yw darparu cymorth arall yn y cyfamser, er enghraifft drwy daliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, **rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ei fod yn gallu darparu llety i blant sy'n derbyn gofal a phlant eraill sy'n cael eu lletya sydd o fewn ardal yr awdurdod lleol ac**

**sy'n diwallu anghenion y plant. Mae hyn yn unol â Chod Ymarfer 6 (Plant y'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya).**

3.15 O ganlyniad i natur fregus y gweithlu gofal cymdeithasol, mae plant a phobl ifanc yn profi newidiadau mewn gweithwyr cymdeithasol. Caiff plant eu cefnogi drwy system unigolion ar ddyletswydd yn hytrach na gweithiwr dynodedig ar adegau. Mae newid gweithwyr cymdeithasol yn ei gwneud yn anodd i blant feithrin cydberthnasau lle gallant ymddiried yn yr unigolyn arall. Clywsom gan un person ifanc ei fod yn ymwybodol y bydd ei weithiwr cymdeithasol yn newid yn fuan. Yn ogystal, mae'n rhaid i rieni ailadrodd eu straeon a'u safbwyntiau i weithwyr cymdeithasol. O ganlyniad i'r newidiadau mewn ymarferwyr, gall cymorth gael ei oedi, a cheir effaith ar y gallu i oruchwylio sefyllfa plant a phobl ifanc hefyd. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion presennol i sicrhau gweithlu cyson, digonol, cymwysedig a medrus i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, a dylai ystyried strategaeth ymadael er mwyn rhoi'r gorau i ddibynnu ar y tîm asiantaeth a reolir a gomisiynwyd.**

## 4. <u>Llesiant</u>

### Cryfderau – Gwasanaethau Oedolion

4.1 Ceir enghreifftiau o ymarferwyr yn cadarnhau'n briodol a yw unigolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg, yn ôl diffiniad GDC, cyn rhoi'r gweithdrefnau ar waith. O'r cofnodion gofal cymdeithasol y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom fod lefelau presenoldeb da mewn cyfarfodydd strategaeth, a bod ymholiadau Adran 126(1) i raddau helaeth yn cael eu cynnal a'u cwblhau o fewn yr amserlenni statudol.

4.2 Mae'r awdurdod lleol yn cynnig hyfforddiant diogelu i ddarparwyr, yn ogystal ag ymarferwyr mewnol, sy'n **ymarfer cadarnhaol**. Mae hyn yn hyrwyddo ymarfer cyson ac mae'n sicrhau y caiff y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â diogelu eu deall ar raddfa eang.

4.3 Ceir ymrwymiad strategol i ddatblygu gwasanaethau cymunedol. Mae'r buddsoddiad mewn hybiau lleol a buddsoddiad cyfalaf arall yn cefnogi'r agenda hon. Er enghraifft, mae Hwb Cyfle yn cynnig gwasanaeth wedi'i adeiladu'n benodol i bobl anabl ac mae'n cynnig gweithgareddau gwahanol mewn amgylcheddau cymunedol er mwyn hyrwyddo llesiant pobl. Byddai'r ddarpariaeth yn elwa ar fwy o gyfleoedd i helpu pobl i fod mor annibynnol â phosibl mewn perthynas â sgiliau byw bob dydd.

4.4 Ceir enghreifftiau da o ddatblygu timau/swyddi arloesol fel y tîm dilyniant a llesiant. Nod y timau hyn yw cefnogi pobl ac atal anghenion rhag gwaethygu.

4.5 Gwelsom enghreifftiau o bobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda chymorth mewn modd amserol. Yn 2022, cynhaliodd y cyngor adolygiad o'r ffordd y caiff pobl hŷn eu cefnogi fel rhan o'r broses ar gyfer cynllunio i'w rhyddhau o'r ysbyty a gwnaeth newidiadau i'r drefn honno drwy greu Tîm Rhyddhau i Asesu ac Adfer (DART). Mae gan wasanaeth DART rolau a chyfrifoldebau clir wedi'u hategu gan drefniadau llywodraethu effeithiol.

**Meysydd i'w gwella**

4.6 Gwelsom amrywiaeth yn y cofnodion gofal cymdeithasol mewn perthynas â diogelu oedolion. Mae angen mwy o eglurder o ran safbwyntiau'r oedolyn sy'n wynebu risg, o ran gwneud penderfyniadau, o ran trafodaethau, ac o ran cadarnhau a yw'r camau gweithredu dilynol wedi ymdrin â'r pryder gwreiddiol. Rhaid rhannu canlyniadau'r ymholiadau â'r unigolyn a gyflwynodd y pryder. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarfer diogelu oedolion yn bodloni gofynion GDC yn gyson.**

4.7 Mae asesiadau gofal cymdeithasol ac adroddiadau diogelu rhai unigolion yn dangos nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu gofal. Mae ansawdd y cofnodion hyn a'r penderfyniadau a wneir yn amrywiol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei ymarfer yn cydymffurfio â gofynion ac egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer perthnasol yn gyson.**

4.8 Yn debyg i lawer o awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn effeithio ar hawliau pobl. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau ar gyfer darparu asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn addas at y diben a'u bod yn ymatebol**.

4.9 Nid yw'r system gofnodi bresennol yn helpu ymarferwyr i nodi cryfderau a chanlyniadau pobl mewn ffordd ystyrlon. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried hyn, a bwrw ati i gaffael system gofnodi wedi'i diweddaru.**

## 5. Llesiant

**Cryfderau – Gwasanaethau Plant**

5.1 Mae anghenion plant a theuluoedd yn Sir y Fflint yn gymhleth ac mae'r galw yn cynyddu, fel sy'n digwydd ledled Cymru. Mae dau dîm asiantaeth wedi'u comisiynu i helpu'r tîm o staff craidd i fodloni'r galw ac i gyflawni dyletswyddau statudol yr awdurdod lleol. Mae cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol ar gael yn hyn o beth, sy'n dangos cefnogaeth barhaus o blaid

blaenoriaethu gwasanaethau i blant a phobl ifanc agored i niwed a'u teuluoedd. Nodwyd bod yna gefnogaeth gorfforaethol i sicrhau y gellir cynnal y tîm asiantaeth hyd nes y bydd yn briodol dod â'i gontract i ben.

5.2 Ar y cyfan, mae ymatebion diogelu, fel trefnu trafodaethau strategaeth cychwynnol, yn amserol.

5.3 Ceir tystiolaeth fod ymarferwyr unigol yn defnyddio ymarfer eithriadol sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae hwn yn **ymarfer cadarnhaol. Er mwyn i'r dull hwn gael ei ymgorffori, dylai'r awdurdod lleol ystyried model ymarfer sy'n tynnu sylw at yr hyn sydd angen ei newid mewn teuluoedd, gyda mwy o ffocws ar sut y gellir hwyluso rhwydweithiau teuluol a rhwydweithiau cymunedol ehangach er mwyn cadw plant yn ddiogel.** Byddai model yn hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth o ymarfer diogelu a phrosesau rheoli risg ar draws asiantaethau. Byddai hefyd yn darparu adnoddau a thempledi cyson i ymarferwyr mewn perthynas â chofnodi a chynnal ffocws ar risgiau. Cydnabyddir bod yr awdurdod lleol yn bwriadu rhoi model ymarfer ar waith yn llawn. Mae'r broses eisoes wedi dechrau drwy roi ffocws cychwynnol ar esgeulustod, ac mae'r awdurdod lleol wedi prynu adnodd proffil graddau esgeulustod drwy'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) er mwyn cefnogi ymarfer. Dyma ymateb **cadarnhaol** gan yr awdurdod lleol i'r nifer mawr o blant sydd wedi'u hesgeuluso ac sydd ar y gofrestr amddiffyn plant.

5.4 Yn ystod cam cynnar penodol ymholiad adran 47, mae safon yr ymarfer yn dda a cheir tystiolaeth o oruchwyliaeth briodol gan reolwyr i hysbysu a chefnogi ymarfer.

5.5 Gwelsom enghraifft o **ymarfer cadarnhaol** lle gwnaeth gweithiwr iechyd proffesiynol gadeirio cyfarfod grŵp craidd, gan ddangos tystiolaeth yn unol â GDC, bod y gwasanaethau plant a'r partneriaid perthnasol yn gyfrifol ar y cyd am gadeirio'r cyfarfodydd hyn a chymryd cofnodion ohonynt. [1]

**Meysydd i'w gwella**

5.6 Ceir awgrym na chaiff y trothwy ar gyfer niwed sylweddol ei gymhwyso'n gyson bob amser wrth ystyried tynnu plant oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Clywsom y gall hyn fod o ganlyniad i gysyniad amhriodol fod cadw enw plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ffordd o sicrhau gwasanaethau cymorth parhaus i'r plentyn a'i deulu. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried rhannu canllawiau yn ehangach â phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol er**

---

[1] Yr adroddiad llawn - Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant FERSIWN DERFYNOL I'W CHYHOEDDI (arolygiaethgofal.cymru)

**mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth gyson o'r trothwyon a'r protocolau rhannu gwybodaeth.**

5.7 Caiff risgiau eu hystyried mewn modd priodol, a chaiff plant a theuluoedd eu symud ymlaen i'r gwasanaeth priodol mewn modd amserol. Fodd bynnag, mae rhai teuluoedd sy'n destun gweithdrefnau amddiffyn plant yn wynebu oedi gan na chaiff ymholiadau bob amser eu cwblhau'n brydlon. Nid yw'r penderfyniad ar ôl cwblhau ymholiad Adran 47 bob amser yn glir. **Rhaid i'r rheolwyr sicrhau, ar ôl i ymholiad amddiffyn plant ddod i ben mewn modd amserol, y caiff y camau nesaf eu cofnodi mewn ffordd eglur a rhesymegol mewn perthynas â'r penderfyniadau o dan Adran 3 Rhan 1 o Weithdrefnau Diogelu Cymru.**

5.8 Gan na chaiff ymholiadau Adran 47 bob amser eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol, mae hyn yn effeithio ar y gallu i wneud penderfyniadau amserol ynghylch a ddylid cynnwys enw plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. **Pan benderfynir bod plentyn yn profi neu'n wynebu risg o brofi niwed, camdriniaeth neu esgeulustod, dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff cynhadledd amddiffyn plant ei threfnu ymhen 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth/cyfarfod strategaeth, neu'r drafodaeth/cyfarfod strategaeth diwethaf (os cafwyd mwy nag un) a arweiniodd at gychwyn yr ymholiad Adran 47.**

5.9 Caiff rhai cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth eu harwain gan y gwasanaeth, gyda ffocws ar gydymffurfiaeth yn hytrach na chanlyniadau. Ni chaiff cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth eu diweddaru fel mater o drefn ar ôl cyfarfodydd y grŵp craidd. Cydnabyddir bod yr hyfforddiant diweddar a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol wedi canolbwyntio ar egluro rolau a chyfrifoldebau i weithwyr cymdeithasol. **Dylai cynllun amddiffyn gofal a chymorth amlinellol a luniwyd yn y gynhadledd gyntaf gael ei ddatblygu i greu cynllun manylach yng nghyfarfod cyntaf y grŵp craidd cyntaf fel y nodir yn GDC. Dylai grwpiau craidd dilynol fynd ati'n benodol i adolygu cynnydd o ran y canlyniadau ar gyfer diogelwch y plentyn. Dylai arweinwyr sicrhau bod gan ymarferwyr systemau a safonau clir ar gyfer datblygu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.**

5.10 Gwelsom enghreifftiau fod datgeliadau gan yr heddlu am gefndir troseddol unigolyn, lle ceir risg bosibl i blentyn, wedi cael eu hystyried yn briodol er mwyn hyrwyddo diogelwch plant. Fodd bynnag, nid oedd y broses rhannu gwybodaeth bob amser wedi'i chwblhau mewn modd amserol. Nodwyd mai pwysau gwaith oedd yn gyfrifol am yr oedi mewn un enghraifft. **Pan fo'r awdurdod lleol yn ymwybodol o wybodaeth o'r fath, ac y cytunwyd y gall**

**rannu gwybodaeth ag unigolion perthnasol er mwyn hyrwyddo diogelwch plentyn, rhaid gwneud hyn mewn modd amserol.**

## 6. <u>Atal</u>

### Cryfderau – Gwasanaethau Oedolion

6.1 Crëwyd capasiti er mwyn gallu gwneud ceisiadau am gyllid grant. Mae swyddog dynodedig yn gyfrifol am gydlynu'r broses hon, a cheir tystiolaeth dda o gefnogaeth gorfforaethol dda o blaid hyrwyddo'r agenda ataliol.

6.2 Ceir enghreifftiau da sy'n dangos bod yr awdurdod lleol yn gweithio'n galed i ailffurfio ac ailgynllunio ei wasanaeth yn unol â'i weledigaeth o ddarparu gwasanaethau ailalluogi a chymorth adsefydlu yn y gymuned i bobl. Er enghraifft, y gwaith i ehangu Cartref Gofal Marleyfield sy'n galluogi pobl i wella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty a dychwelyd i fyw'n annibynnol. Gwnaeth yr awdurdod lleol fuddsoddiad o'i raglen gyfalaf ei hun ac ategwyd hynny â grantiau gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y gwaith o ddatblygu'r model gweithredol a'i roi ar waith ei gyd-gynhyrchu â BIPBC. Mae hyn yn cefnogi cynllun yr awdurdod lleol i gynyddu ei gapasiti gofal preswyl ei hun, gan ar yr un pryd gefnogi BIPBC drwy ddarparu capasiti gwelyau Cam-i-Fyny Cam-i-Lawr ychwanegol.

6.3 Mae cynllun Cyngor Sir y Fflint i ehangu'r ddarpariaeth cam-i-lawr drwy ddatblygu Croes Atti Newydd, gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r gwaith ar Gartref Gofal Marleyfield yn arwydd pellach o ymrwymiad y Cyngor i helpu pobl i ddychwelyd adref ac i fyw'n annibynnol. Caiff Croes Atti Newydd ei ddatblygu fel rhan o ddatblygiad cyfalaf yr awdurdod lleol ei hun wedi'i gefnogi gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a bydd yn cynnig gwasanaethau eraill yn ogystal â chyfleuster cam-i-lawr.

6.4 Mae'r awdurdod lleol yn rhagweithiol wrth hyrwyddo mathau gwahanol o wasanaethau i helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau, ac i alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy. Mae gwaith yr awdurdod lleol i hyrwyddo a chefnogi micro-ofalwyr yn enghraifft o'r **ymarfer cadarnhaol** hwn. Yn debyg i'r porth taliadau uniongyrchol, mae gan yr awdurdod lleol borth i ficro-ofalwyr sy'n hawdd i'w ddefnyddio. Mae hyn yn galluogi pobl i allu dod o hyd i gymorth a rheoli eu cymorth eu hunain. Mae'r micro-ofalwyr ar fframwaith penodol, sy'n dangos tystiolaeth eu bod yn addas i gefnogi pobl ac yn galluogi'r awdurdod lleol i gomisiynu gwasanaeth ganddynt yn uniongyrchol.

6.5 Fel sy'n gyffredin ym mhob rhan o Gymru, mae pobl mewn rhai ardaloedd o'r sir yn gorfod aros am becynnau gofal cartref i ddiwallu eu hanghenion gofal a

chymorth. Mae hyn yn golygu na fydd pobl o bosibl yn cael cymorth digonol yn ystod y cyfnod hwn, a gall hyn olygu y bydd gan ofalwyr di-dâl gyfrifoldebau ychwanegol. Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028 yn nodi syniadau arloesol i geisio ehangu'r opsiynau ar gyfer rhoi cymorth. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys parhau i dyfu ei wasanaeth gofal cartref mewnol gan ddefnyddio cynllun recriwtio treigl a hyrwyddo a chefnogi ymdrechion i ehangu micro-ofalwyr. Mae ceir ar gael i'w rhannu hefyd, ac mae prosesau'r awdurdod lleol ar gyfer comisiynu gyrwyr a gaiff eu talu i gludo gweithwyr gofal nad ydynt yn gyrru yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol** er mwyn sicrhau y caiff pobl eu cefnogi.

6.6 Mae'r tîm Pwynt Mynediad Unigol yn Sir y Fflint yn darparu gwasanaeth cyflym ac ymatebol saith diwrnod yr wythnos. Mae hyn yn **ymarfer cadarnhaol.** Gwelsom nifer uchel o alwadau yn dod i mewn ac yn cael eu hateb mewn ffordd barchus gan yr ymarferwyr. Cafodd hyn ei gadarnhau gan unigolyn a siaradodd â ni *"They were swift and I'm always confident I can speak to people in SPOA."* Roedd llawn cymaint o ganmoliaeth i rannau eraill o'r gwasanaethau oedolion, gan ddangos bod pob rhan o'r gwasanaethau oedolion yn canolbwyntio ar atal anghenion rhag gwaethygu.

**Meysydd i'w gwella**

6.7 Mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau ac adolygiadau gofal cymdeithasol yn uchel a gallant gael effaith negyddol ar bobl. Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio rhestrau aros ar gyfer asesiadau gofal cymdeithasol yn anghyson ar draws timau. Er i ni gael sicrwydd ar lafar fod timau yn goruchwylio rhestrau aros, nid oedd llawer o gofnodion i ddangos hyn. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff rhestrau aros eu monitro mewn ffordd briodol a chyson ac y caiff gwybodaeth allweddol ei chofnodi i ddangos bod achosion yn cael eu blaenoriaethu'n briodol.**

6.8 Ni chaiff cynlluniau gofal a chymorth bob amser eu hadolygu mewn modd amserol. **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw'r ddarpariaeth gofal a chymorth yn diwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer yr unigolyn, ac er mwyn ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen cynnal asesiad arall.**

## 7. Atal

**Cryfderau – Gwasanaethau Plant**

7.1 Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau ac y caiff anghenion eu hatal rhag gwaethygu. Mae Hwb Cymorth Cynnar sefydledig ar waith, sy'n cynnwys amrywiaeth o bartneriaid

ac asiantaethau o'r trydydd sector. Mae'r ffocws ar gyflwyno cymorth mwy amserol a phriodol i deuluoedd â lefelau angen uwch na'r rhai hynny sy'n cael eu cefnogi gan wasanaeth cyffredinol yn unig. Yn ogystal, mae'r awdurdod lleol wedi creu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar ddechrau'r flwyddyn hon. Gwnaed hyn mewn ymateb i'r pwysau yn deillio o gynnydd yn nifer y bobl a oedd yn cysylltu gan anelu at barhau i gefnogi teuluoedd ar gam cynnar.

7.2 Ceir ffocws ar hyrwyddo llesiant gofalwyr ifanc. Roedd grŵp cymorth i ofalwyr ifanc ar gael, ac roedd y cymorth hwnnw o fudd i blant. Roeddent yn amlwg yn mwynhau'r gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnig a chwmni'r ymarferwyr a'u cyfoedion.

7.3 Mae ffocws strategol clir ar gefnogi lleoliadau mewn cartref gofal a lleoliadau maeth, yn ogystal â helpu plant i aros o dan ofal eu teuluoedd a/neu i ddychwelyd at ofal eu teuluoedd drwy Therapi Amlsystemig (MST). Mae'r timau yn darparu cymorth 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos. Mae un o'r timau, MST-FIT Gogledd Ddwyrain Cymru, yn cefnogi plant sy'n byw yn Nhŷ Nyth, yn ogystal â phlant sy'n byw gartref gyda'u rhieni. Tŷ Nyth yw'r Cartref Model Triniaeth Integredig cyntaf yng Nghymru ac mae'n derbyn cyllid teirochrog gan yr awdurdod lleol, BIPBC ac awdurdod lleol cyfagos. Mae canlyniadau plant a phobl ifanc wedi gwella yn dilyn cymorth gan MST.

7.4 Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu pecyn cymorth mewn ymateb i'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (ACG) diwygiedig a roddwyd ar waith ym mis Ionawr 2023 gan y farnwriaeth ledled Cymru a Lloegr. Mae'n cynnwys amrywiaeth o ddogfennaeth newydd a fydd yn mynd ati i hyrwyddo parhad ymarfer seiliedig ar gryfderau ymhellach. Mae hefyd yn rhoi eglurder i rieni o ran y pryderon sydd wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â'u plant, a pha newidiadau sydd eu hangen i leihau'r pryderon. Bydd cyfaill ACG hefyd yn cael ei neilltuo i blant deg oed neu'n hŷn, yn debyg i gyfaill cynadledda, er mwyn sicrhau y caiff eu llais ei glywed fel rhan benodol o'r achosion hyn cyn y llys. Mae hyn yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol** gan ei fod yn hyrwyddo llais plant a'u teuluoedd ymhellach. Gellir gwella ymarfer drwy sicrhau bod cofnodion yn rhoi digon o fanylion ynghylch pryd a ble y gwnaed penderfyniad i ddechrau achosion ACG ac i ddangos bod y penderfyniadau a wnaed yn hyn o beth yn amserol.

**Meysydd i'w gwella**

7.5 Nid yw plant sy'n niwroamrywiol neu sy'n aros am ddiagnosis o gyflwr niwroamrywiol posibl a'u rhieni bob amser yn cael gohebiaeth a chymorth prydlon a digonol. Mae oedi wrth roi cymorth yn effeithio ar eu llesiant. Cydnabyddir bod gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o'r sefyllfa hon ac

aeth ati'n ddiweddar i ddatblygu ei wasanaeth er mwyn cyflwyno rôl benodol i ymateb i rieni/gofalwyr a rhoi cymorth iddynt yn gynt, yn ystod y cyfnod pan fydd eu plant yn aros am asesiad/diagnosis niwroamrywiol. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i oruchwylio a monitro effeithiolrwydd y datblygiad hwn ac effaith hyn ar blant a theuluoedd.**

## 8. Partneriaeth

### Cryfderau – Gwasanaethau Oedolion

8.1 Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda darparwyr ledled Sir y Fflint ar lefel weithredol er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau a sicrhau eu bod yn effeithlon. Dywedodd darparwyr wrthym fod ganddynt linellau cyfathrebu agored â staff yn yr awdurdod lleol a'u bod yn teimlo'n gyfforddus yn eu defnyddio fel 'seinfwrdd' ar gyfer syniadau a phrosiectau newydd.

8.2 Mae'r awdurdod lleol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â chydweithwyr yn BIPBC er mwyn trafod ansawdd y gofal a'r ddarpariaeth mewn cartrefi gofal yn yr ardal. Gwelsom fod y fforwm hwn yn annog prosesau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â'r camau gweithredu dilynol y byddai asiantaethau yn eu cymryd.

8.3 Mae gan ymarferwyr a darparwyr fel ei gilydd barch mawr tuag at y cynllun Cynnydd i Ddarparwyr. Mae'r cynllun yn galluogi darparwyr cartrefi gofal a chymorth cartref i weithio tuag at ddyfarniadau efydd, arian ac aur gwahanol mewn perthynas â pha mor dda maent yn darparu cymorth wedi'i bersonoli i bobl. Mae'r dull yn **gadarnhaol** gan ei fod yn hyrwyddo ymarfer seiliedig ar ganlyniadau yn hytrach na chymorth traddodiadol seiliedig ar dasgau ac mae'r amrywiaeth o adnoddau a chanllawiau i gefnogi darparwyr yn werthfawr. Mae'r awdurdod lleol yn ailraddio darparwyr yn unol â'u perfformiad.

8.4 Mae'r awdurdod lleol yn rhoi cymorth i bobl ifanc ag anabledd dysgu ddod o hyd i leoliadau gwaith gyda'r nod o gael cyflogaeth â thâl hyd nes y byddant yn 25 oed. Yn fwy diweddar, penderfynwyd cynnig y cymorth hwn i unigolion dros 25 oed ag anabledd dysgu hefyd. Mae hyn yn enghraifft gadarnhaol o ddull gweithredu ar y cyd rhwng yr awdurdod lleol, HFT (elusen sefydledig sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu), cymdeithas tai Clwyd Alyn a Choleg Cambria.

### Meysydd i'w gwella

8.5 Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau yn gweithio'n dda ar lefel weithredol; fodd bynnag, ni chaiff gwybodaeth bob amser ei rhannu'n effeithiol oherwydd y dulliau a'r systemau gwahanol ar gyfer cofnodi gwybodaeth. Mae hyn yn

golygu nad yw gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth pobl ar gael yn hawdd ar draws partneriaid, sy'n cynnwys rhai ymarferwyr a gyflogir gan yr awdurdod lleol. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried sut y gall hyrwyddo prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth ymhellach wrth iddo gaffael system gofnodi newydd.** Dylai pob ymarferydd perthnasol mewn timau gwahanol o fewn Cyngor Sir y Fflint megis timau ardal, timau camddefnyddio sylweddau a thimau iechyd meddwl cymunedol allu cael gafael ar holl gofnodion yr unigolyn maent yn ei gefnogi. Byddai hyn yn helpu i rannu gwybodaeth ac yn ei gwneud hi'n haws goruchwylio a deall amgylchiadau unigolyn.

8.6 Rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau ei systemau ar gyfer asesiadau gofalwyr er mwyn sicrhau y caiff hawliau a llais pob gofalwr eu hyrwyddo'n llawn. Nid yw asesiadau gofalwyr yn cael eu cofnodi'n ddigonol ac ni cheir cyfathrebu digonol yn eu cylch o fewn yr awdurdod lleol. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd ymarferwyr yn ymwybodol a oedd asesiad gofalwr wedi cael ei gynnal, ac os oedd, beth oedd canlyniad yr asesiad. **Rhaid i'r awdurdod lleol oruchwylio'r asesiadau hyn yn well er mwyn bod yn hyderus ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n llawn yn unol â gofynion Rhan 3 a Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (asesu a diwallu anghenion unigolion).**

## 9. Partneriaeth

### Cryfderau – Gwasanaethau Plant

9.1 Ar y cyfan, mae systemau a chydberthnasau ar waith i hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol. O fewn y gwasanaethau plant ac wrth weithio â phartneriaid, ceir ethos ar y cyd sy'n anelu at ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant.

9.2 Yn gyffredinol, ar lefel strategol, mae gwaith gyda phartneriaid yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth a chydweithredu. Nododd partneriaid fod yr arweinwyr yn dryloyw ac yn barod i gael eu herio. Mae arweinwyr sectorau yn cyfathrebu'n rheolaidd, ond nodwyd bod newidiadau cyson o ran rheolwyr o fewn asiantaethau partner yn her wrth sicrhau trefniadau gwaith cyson. Roedd rhai partneriaid trydydd sector o'r farn y gellid gwella eu gwaith gyda'r gwasanaethau plant mewn perthynas â chynwysoldeb a'u cyfranogiad wrth gynllunio gwasanaethau.

9.3 Mae'n amlwg bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau drwy ymholiadau Adran 47, cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a grwpiau craidd. Mewn cyfarfodydd eraill, fel cynadleddau adolygu, mae cyfraniad asiantaethau partner weithiau'n lleihau. Dywedodd asiantaethau partner eu bod yn awyddus i gael eu cynnwys fwy mewn trafodaethau/cyfarfodydd

strategaeth cychwynnol. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i sefydlu MASH (Hwb Diogelu Amlasiantaethol) yn yr awdurdod lleol a fydd yn annog mwy o gyfranogiad a threfniadau gweithio amlasiantaethol.

9.4 Mae sicrhau bod digon o leoliadau ar gael yn her ledled Cymru ac yn y gorffennol, mae'r awdurdod lleol wedi lleoli plant mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio buddsoddiad cyfalaf sylweddol i gyflawni ei ddyletswydd i ddarparu llety digonol yn ei ardal ei hun i blant sy'n derbyn gofal. Un enghraifft o'r **ymarfer cadarnhaol** hwn yw'r buddsoddiad diweddar mewn gofal preswyl mewnol gan gynnwys y gwaith diweddar i adeiladu Y Dderwen ac i ddatblygu 2 gartref i grwpiau bach. Mae'r plant yn elwa ar fyw yn agos at eu teulu, eu ffrindiau a'u cymuned.

9.5 Mae unigolion sy'n gadael gofal yn cael cymorth parhaus ar ôl iddynt adael gofal, a hynny ar ffurf cynllun Pan Fydda i'n Barod, lle mae'r bobl ifanc yn aros gyda gofalwyr maeth wrth iddynt bontio i fyd oedolion. Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt fod y ffaith bod y ddogfennaeth yn cyfeirio atynt fel tenantiaid yn hytrach nag aelodau o deulu'r gofalwyr maeth y maent yn dewis parhau i fyw gyda nhw yn eu brifo. Maent yn ystyried eu hunain i bob pwrpas yn rhan o deulu'r gofalwyr maeth, ac mae'r gofalwyr maeth o'r un farn. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried sut y gall gael dylanwad er mwyn newid y derminoleg.**

**Meysydd i'w gwella**

9.6 **Rhaid i'r gwasanaethau plant gyflwyno gwybodaeth am ganlyniadau'r ddyletswydd i adrodd mewn modd amserol i'r unigolyn a roddodd wybod am yr achos i ddechrau.** Ceir anghysondebau o ran yr ymarfer cyfredol yn hyn o beth.

9.7 **Rhaid i'r gwasanaethau plant sicrhau y caiff asiantaethau priodol eu gwahodd i drafodaethau/cyfarfodydd strategaeth yn unol â GDC, gan gynnwys ymarferydd sy'n llunio'r adroddiad ac ymarferwyr o wasanaethau addysg ac iechyd yn y gymuned os yn berthnasol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.**

9.8 Roedd safbwyntiau a phrofiadau rhieni/gofalwyr plant anabl yn nodi y gellid cryfhau'r cymorth sydd ar gael iddynt ac y gallai fod yn fwy hyblyg. Gwnaethant ddweud wrthym nad oedd y cymorth a gynigir bob amser yn addas ar gyfer eu hanghenion hwy ac anghenion eu plant. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y rhiant/gofalwr yn cael ei gynnwys fel partner llawn wrth asesu i ba raddau y gall gyflawni ei ganlyniadau**

**personol, neu gyda chymorth pobl eraill sy'n fodlon darparu'r cymorth hwnnw; neu gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned sydd ar gael iddo.**

9.9 Gwelsom enghreifftiau o blant a oedd yn gadael gofal yn gorfod nodi eu bod yn ddigartref er mwyn cael cymorth tai. Dywedodd ymarferwyr hefyd fod llety i bobl ifanc yn her barhaus ac yn faes i'w wella. Ceir opsiynau tymor hwy clir i gefnogi pobl ifanc gyda chymorth tai yn gyffredinol, yn unol â'r amcanion llesiant yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. Un enghraifft yw cynllun strategol wedi'i lywio gan ddull amlasiantaethol, er mwyn creu hwb digartrefedd i bobl ifanc a fydd yn cynnig llety yn ogystal â gwasanaethau cymorth. **Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod lleol barhau i flaenoriaethu ei raglen o sicrhau opsiynau tai priodol i bobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl 16-17 oed perthnasol.** Dylid cynnig opsiynau tymor hwy a thymor byrrach, a lle y bo'n bosibl, gan osgoi'r angen i unigolion sy'n gadael gofal orfod nodi eu bod yn ddigartref.

## 10. Y Camau Nesaf

Rydym yn disgwyl i Gyngor Sir y Fflint gymryd camau priodol i wella'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella. Byddwn yn monitro cynnydd drwy ein gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Rydym yn croesawu ymdrechion gan yr awdurdod lleol i rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd gydag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 11. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau 45 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom adolygu 34 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain deg.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r unigolyn sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws, â 40 o bobl sy'n derbyn gwasanaethau a/neu eu gofalwr.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws, â 133 o gyflogeion yr awdurdod lleol ac aelodau etholedig (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gweithredol, uwch-reolwyr a chyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol).
- Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner.

- Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion goruchwylio staff.
- Gwnaethom arsylwi ar banel adnoddau a chyfarfod rhyngasiantaeth yn y gwasanaethau oedolion.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 12. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ein gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol yn yr achos hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr arolygiad gwerthuso perfformiad hwn yn Gymraeg.

## 13. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

## 14. Rhestr termau

**Rhaid -** Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu.

**Dylai -** Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd statudol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg y gallai'r awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol.

**Ymarfer cadarnhaol** - Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol.

**Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** - Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor yn canolbwyntio ar gynyddu

gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn sicrhau bod cyn lleied o anghenion critigol â phosibl i'w huwchgyfeirio.

**Llais a Rheolaeth** - Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt.

**Llesiant** - Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.

**Cydgynhyrchu** - Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl mwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau.

**Gweithio amlasiantaethol** - Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.

**CAMPUS** - Fframwaith arferion gorau ar gyfer pennu nodau yw CAMPUS. Dylai nod CAMPUS anelu at egwyddorion cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol.

**Beth sy'n bwysig -** Mae sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a beth y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr ei glywed ac y cânt wybod 'beth sy'n bwysig' iddynt